



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

**RHIFYN 5** - Medi / Hydref 2016



## PORTH DROSY GAEAF

Sut all rheolaeth porthiant effeithiol leihau costau cynhyrchu.



## PROSIECT PORFA CYMRU

Yn y rhifyn hwn –  
Trosolwg o'r materion sy'n effeithio rheolaeth glaswelltir yn 2016.



Tudalen 8.  
Therapi Buchod Sych Dethol  
gan **Jamie McCoy**



Tudalen 12.  
**Digwyddiadau**  
Beth sy'n mynd ymlaen  
yn eich ardal chi...

# CYFLWYNIAD



CROESO i bumed rhifyn cyhoeddiad technegol CFF, sy'n dilyn cyfnod o dywydd braf a welwyd ganol mis Awst yma ar fferm Llysun, un o 12 Safle Arddangos Cyswllt Ffermio.

Cafodd yr holl wŷn eu diddyfnu ar ddechrau mis Gorffennaf, gyda'r rhai cryfaf 34kg a throsodd yn cael eu troi at borfa adladd a gwndwn wedi'i ail hadu gyda rêp. Mae'r wŷn llai, 28-34kg wedi derbyn bolws elfennau hybrin ac wedi aros ar y mynydd, ac yn cael blaenoriaeth o ran pori cyn y gwartheg a'r mamogiaid. Mae'r wŷn yn parhau i wneud yn dda gyda llwythi'n cael eu gwerthu'n wythnosol gyda phwysau carcass cyfartalog o 19.2kg.

Mae sampl o 45 o famogiaid wedi derbyn profion gwaed i edrych ar lefelau elfennau hybrin, ac rydym yn aros am y canlyniadau.

Mae hanner cant o wartheg blwydd yn barod i ddychwelyd oddi ar y mynydd i borfeydd adladd yn dilyn ail doriad, gyda disgwylid i gyflwyno dwysfwyd o ddechrau mis Medi er mwyn cynnal cyfraddau twf. Y nod yw ennill 150kg ar laswellt o bwysau o 414kg pan yn eu troi allan.

Bu'r teirw'n brysur iawn ym mis Gorffennaf, ac wrth i ni gychwyn ar y drydedd gylchred, mae gweithgaredd gofyn tarw'r buchod yn ymddangos yn dawel iawn. Derbyniodd heffrod cydamseredig Ffrwythloniad Artiffisial ar 30ain Mehefin, gan sganio ar 19eg Awst, ac eto maent i weld yn dawel heb unrhyw weithgaredd gweledol. Sicrhau'r cyfraddau cenhedlu gorau posib yn y gylchred gyntaf yw'r nod.

Mae'r lloeau'n tyfu'n dda ac wedi cyrraedd yr 'arddegau' fel y bydda i'n ei ddweud, wedi iddynt gollir bloneg tyfu a thyfu coesau a blew! Bydd lloeau o'r heffrod cyntaf i ddod â llo yn derbyn dwysfwyd o ddechrau mis Medi ymlaen.

Mae dau doriad o silwair wedi eu cynaeafu ac yn edrych yn iach, ac yn barod i gael ei ddadansoddi.

Mae pedwar cae wedi derbyn 130 tunnell o galch calsiwm er mwyn cywiro lefelau pH ac mae mwyafrif y caeau wedi derbyn gwrrtaith arwynebol er mwyn sicrhau bod cyfraddau twf glaswellt dros ddiwedd yr haf yn cael eu cynnal. Mae gwasgaru sylffwr wedi dod yn flaenoriaeth gyda phob cael pori a chae silwair yn derbyn gwasgariad.

**Richard Tudor** - Ffermwr Arddangos Cyswllt Ffermio

## Cyswllt Ffermio

Cofrestrwch ar gyfer y rhaglen heddiw!

08456 000 813

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-gofrestru-cyswllt-ffermio>



# Systemau pori i dda byw ymysg coed

- Cynyddu cynhyrchiant fferm a lleihau allyriadau carbon

**Geraint Jones:** Swyddog Technegol Coedwigaeth – Cyswllt Ffermio



Amaethgoedwigaeth yw'r broses o dyfu coed a chnydau amaethyddol/garddwriaethol ar yr un darn o dir. Y nod yw darparu cynnyrch coed a chnydau eraill, wrth ddiogelu, cadw, arallgyfeirio a chynnal adnoddau economaidd, amgylcheddol, dynol a naturiol hanfodol ar yr un pryd. Mae amaethgoedwigaeth yn wahanol i amaethyddiaeth a choedwigaeth draddodiadol gan ei fod yn canolbwyntio ar y cydadwaith rhwng planhigion sy'n tyfu yn hytrach nag ar y mathau o gnydau unigol eu hunain.

Mae gwaith ymchwil dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi cadarnhau bod amaethgoedwigaeth a choed ar ffermydd wedi llwyddo i leihau effeithiau newid hinsawdd, yn ogystal â chynyddu gwynwch ffermydd, gan hefyd wella bywoliaeth ffermwyr.

Felly, mae'n bosib iddo fod yn fwy cynhyrchiol yn fiolegol, yn fwy proffidiol, ac yn fwy cynaliadwy na choedwigaeth unigol neu amaethyddiaeth ungnwd.

Bydd y prosiect yng nghanolfan ymchwil Henfaes, yn defnyddio ardaloedd amaethgoedwigaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu, yn arddangos yr arfer amaethgoedwigaeth o bori da byw ymysg coed sydd wedi cael ei rheoli'n ddigonol i alluogi digon o oleuni'r haul i gynhyrchu lleiniau cynhyrchiol o gnydau porthiant gan gynnwys rēp a maip sofr fel cnydau toriad rhwng rhesi o goed. Bydd y data a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo a rhoi gwybodaeth i ffermwyr ynglŷn â'r opsiynau

sydd ar gael a fyddai'n gallu arallgyfeirio eu harferion ffermio, a chynyddu cynhyrchiant a phroffidioldeb ar fferm. Bydd dyddiau agored yn dangos y math o weithdrefnau y gellir eu dilyn er mwyn cynyddu elfen aml-ddefnydd y tirlun ffermio, a chynnig gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaethau ecosystem, heb leihau cynhyrchiant a phroffidioldeb busnes ffermio defaid. Mae cyfran helaeth o ffermydd defaid a biff Cymru yn ffermydd ucheldir. Mae'r ymchwil a wneir yn Henfaes yn rhoi cyfle i ffermwyr ymchwilio a datblygu gwybodaeth i ddatblygu eu busnes mewn modd mwy cynaliadwy a gwella perfformiad amgylcheddol y fferm.

Bydd y prosiect hefyd yn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau ffermwyr trwy ddatblygu a chynyddu eu gallu i reoli'r adnoddau sydd ar gael iddynt trwy arferion sy'n lleihau allyriadau carbon. Mae'r sector amaethyddiaeth mewn gwledydd megis Awstralia yn elwa o raglen 'cap-and-trade' dan orchymyn cenedlaethol sy'n galluogi ffermwyr sy'n defnyddio arferion dal a storio carbon i werthu credydau carbon i gorfforaethau sy'n llygru'n drwm sydd angen gwrthbwyso eu hól troed carbon. Yr her i ffermwyr yw canfod dulliau syml, cadarn a hawdd i'w ail-greu er mwyn mesur y carbon sydd wedi cael ei ddal a'i storio at ddiobenion cyfrifyddol. Bydd y prosiect yn darparu ffigyrau cyfrifo carbon a ellir eu cymharu'n flynyddol trwy gydol y prosiect.



## Prosiect porfa Cymru gan Chris Duller



Mae rheolaeth tir glas yn 2016 wedi bod yn eithaf anodd i rai hyd yn hyn - mae'r mwyafrif wedi tyfu digon, ond yn aml, maent wedi cael trafferth gydag ansawdd a defnydd y glaswellt. Mae'r dechreuad araf i'r tymor ym mis Ebrill a dechrau Mai wedi costio oddeutu 1t o ddeunydd sych i'r mwyafrif, gan olygu bod nifer wedi bod yn brin o laswellt ac wedi gorfod bwydo am gyfnod hirach na'r disgwyl.

Er bod mis Mai wedi bod yn fis sych, collodd nifer y cyfle i wneud silwair o ansawdd uchel gan eu bod wedi gohirio cau'r caeau am wythnos neu ddau, gan arwain at dorri silwair yn y mis Mehefin, a oedd yn wlypach. Gwelwyd tyfiant glaswellt eithriadol ar ddiwedd mis Mai a dechrau Mehefin, gyda nifer yn cofnodi cyfraddau twf o 130kg DM/ha/dydd a throsodd.

Mae amodau tir gwael a chyfraddau twf uchel wedi golygu llawer o wastraff o ran glaswellt trwy fis Mehefin a Gorffennaf, a oedd yn parhau i effeithio ar ansawdd pori trwy gydol yr haf. Roedd torri ymlaen llaw yn opsiwn poblogaidd i nifer o ffermwyr llaeth, tra bod peiriannau tocio wedi cael eu defnyddio'n helaeth gan nifer o ffermwyr biff a defaid.

Fel arfer, byddem yn disgwyl gweld lleihad mewn twf glaswellt ym mis Gorffennaf ac Awst, fodd bynnag, mae'r digonedd o law a gafwyd wedi cadw cyfraddau dros 60kgDM/ha/dydd trwy gydol yr haf – er wrth symud ymhellach i gyfeiriad y dwyrain tuag at y ffin, mae priddoedd sych wedi cyfyngu'r tyfiant i lai na 30kg D/dydd. Roedd gohirio ail doriadau silwair yn gyfrifol am roi pwysedd ychwanegol ar gyflenwad glaswellt i nifer, ond wedi i'r adladd ddychwelyd i'r tir pori, roedd y mwyafrif yn gallu adeiladu gorchudd glaswellt ymhell dros 2500kg DM/ha erbyn diwedd mis Awst.

Mae ansawdd y glaswellt wedi bod yn broblem trwy gydol y flwyddyn, gyda lefelau protein ac egni'n llai nag arfer a chyfnodau cyson o laswellt sy'n isel o ran deunydd sych. Roedd lefelau afiechydon glaswellt yn uchel ar ddechrau'r tymor, ac yn debygol o fod yn broblem wrth fynd ymlaen i'r hydref.

Gobeithio y bydd nifer wedi cymryd mantais o'r digonedd o laswellt haf er mwyn ail-hadu ambell i gae - er; mae 2016 hefyd wedi bod yn flwyddyn anodd ar gyfer hau glaswellt. Mae niferoedd uchel o wllthod a phryfed teiliwr wedi achosi rhai problemau - ac mae cyfnodau addas ar gyfer trin wedi bod yn fyr. Er... gallai'r flwyddyn nesaf fod yn haws.

Mae Cyswllt Ffermio wedi dewis ffermydd traws-sector wedi'u lleoli ledled Cymru i fesur a monitro twf glaswellt. Mae data technegol bob un o'r treialon a gynhaliwyd ar bob fferm sy'n cymryd rhan ym mhrosiect porfa Cymru ar gael ar ein gwefan [businesswales.gov.wales/farmingconnect/information-hub/pasture-project](https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/information-hub/pasture-project)

Gyda'r holl ffeithiau, dylai'r data eich galluogi i wneud penderfyniadau rheolaeth deallus i'ch cynorthwyo i gael y canlyniadau gorau o'ch strategaeth pori.



## PROSIECT PORFA CYMRU →

**JOHN OWEN**  
Gelli Aur, Llandeilo

Mae tyfiant y glaswellt yn uwch na'r cyfartaledd eleni, ond mae'r ansawdd ychydig yn llai. Mae'r cyfraddau twf uchel ar ddechrau mis Mai a Mehefin wedi golygu bod yr ansawdd wedi dioddef bryd hynny gan ein bod yn pori glaswellt aeddfed yn hytrach na phan oedd ar ei orau. Roedd tyfiant ar ddechrau'r tymor yn araf, ond yna, cawsom gyfnod o dwf eithriadol o ddechrau mis Mai ymlaen. Cawsom ychydig o ddiffyg tua chanol mis Gorffennaf, ond mae wedi gwella eto erbyn hyn.

Mae ein defnydd o borthiant a'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar gofnodi glaswellt yn rheolaidd a rheoli cyfraddau twf. Rydym yn cofnodi popeth ac yn edrych ar argaeledd glaswellt, ac yna'n tynnu padogau neu gaeau allan, yn ddibynnol ar p'un ai oes gwarged ai peidio.

**SAM CAREY**  
Rhiw Las, Bala

Rydym ni wedi cael tyfiant glaswellt eithriadol yr haf yma, cawsom ychydig o oediad cyn dechrau'r gwanwyn a oedd yn eithaf anodd ei reoli, ond heblaw am hynny, mae tyfiant wedi bod yn wych. Rydym wedi llwyddo i gadw'r ansawdd hefyd trwy fesur yn wythnosol - a thynnu padogau allan ar gyfer silwair yn ôl yr angen.

Rydym yn mesur yn wythnosol ac yn defnyddio'r lletem laswellt trwy gydol y tymor i reoli dyraniadau ac i osgoi prinder a gwarged, ac yn sicrhau bod gorchudd yn cael ei bori yn ystod y cyfnod tair deilen. Rydym yn defnyddio cyllideb laswellt yn yr hydref i ddatblygu gorchudd ac yn sicrhau ein bod yn gallu pori'n hwy'r i'r hydref. Mae mesur glaswellt yn hanfodol i broffidoldeb y busnes. Os nad ydych yn ei fesur, ni allwch ei reoli.

**RHODRI OWEN**  
Glynllifon, Caernarfon

Yng Ngholeg Glynllifon, rydym yn bendant yn gwerthfawrogi defnydd o laswellt ers mesur yn rheolaidd, gan anelu at darged o 3,000/DM/ha wrth gyflwyno'r da byw a 1,500kg/DM/ha ar ôl pori. Gan ddefnyddio'r glaswellt ar yr adeg iawn, rydym yn llwyddo i gynhyrchu mwy ac yn gweld bod angen i ni gynyddu cyfraddau stocio.

Mae wedi bod yn dymor tyfu amrywiol, lle mae cyfraddau twf wedi amrywio'n sylweddol o ganlyniad i dywydd poeth a llaith, glaw trwm ac ambell gyfnod sych. Mae'r defaid yn pori mewn grwpiau ac rydym yn defnyddio system bori ar sail arweinwyr a dilynwyr, ac er bod mesur glaswellt yn gallu cymryd amser a bod gofynion hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r offer, meddalwedd a'r systemau pori, ni allwch reoli os nad ydych yn mesur.

## ANDREW REES

Moor Farm, Walwys Castle



Mae wedi bod yn flwyddyn gymharol dda. Roedd hi'n araf i ddechrau, ond ers hynny, mae tyfiant ac ansawdd wedi parhau. Roedd tipyn o waith o ran rheoli ansawdd trwy ddiwedd mis Mai gan fod y glaswellt yn dechrau o'r dechrau mae'n anhebygol y bydd tyfiant yn fwy nag arfer, ond dylem fod yn agos at y cyfartaledd;

Tyfywyd 1300kg/DM/Ha yn llai o laswellt rhwng mis Ionawr a mis Ebrill eleni o'i gymharu â llynedd.

Rydym wedi rheoli'r tyfiant trwy roi toriadau ffres ar ôl bob llaethiad a gwaredu unrhyw warged wrth iddynt godi. Fe wnaethom ni dorri'r mwyafrif o'r cylchdro cyn pori ddiwedd mis Mai/dechrau mis Mehefin, gan roi ail-dyfiant deiliog da i mewn i ganol yr haf.

## DEWI JONES

Llysfasi, Rhuthun



Rydym wedi gweld digon o dwf glaswellt eleni, ac mae wedi bod yn anodd cadw trefn arno ar brydiau.

Mae mesur y glaswellt yn ein galluogi i wneud penderfyniadau gwell a mwy amserol ac rydym yn gwneud gwell defnydd o laswellt erbyn hyn. Mae hefyd yn amlygu pa gaeau sy'n perfformio orau neu ddim cystal. Mae'r da byw hefyd yn derbyn mwy o gynnyrch o'r porthiant.

Mae ein strategaethau allweddol ar gyfer rheoli porthiant eleni wedi cynnwys cyfuniad o dorri a phori, gan gynhyrchu bymaw crwn o ardaloedd llai a glaswellt dros ben, yn ogystal â thorri. Rydym wedi torri ychydig cyn pori, ond mae'r tywydd gwlyb wedi cyfyngu rhywfaint ar hynny.

## ELGAN DAVIES

Cefn Amlwch, Tudweiliog



Roedd tyfiant glaswellt yn eithaf gwan ar ddechrau'r tymor gan ei bod yn oer, ond mae wedi tyfu'n dda iawn ers hynny. Nid yw'r ansawdd cystal eleni gan fod y glaswellt wedi tyfu mor sydyn. Mae'r gwartheg wedi bod yn gwneud yn dda'r tymor hwn, ond mae wedi bod yn anodd rheoli'r borfa a chynnal yr ansawdd gan fod y glaswellt wedi tyfu mor sydyn.

Er mwyn rheoli'r glaswellt eleni, rydym wedi gorfod byrhau'r cylchdro fel bod gwartheg wedi gorfod dychwelyd i'r cae'n weddol sydyn, ar ôl oddeutu 18 diwrnod. Rydym hefyd wedi cymryd toriad ychwanegol ar gyfer silwair, er na fyddem fel arfer yn dymuno gwneud hynny oddi ar y borfa, ond roedd yn angenrheidiol ar gyfer ein rheolaeth porfa.

## EMYR OWEN

Bodrach, Carmel, Llanrwst



Ni chawsom fawr o dyfiant glaswellt nes ganol mis Mai, bythefnos yn hwyrach na llynedd, ac mae ambell gae wedi cyrraedd uchafbwynt o 70+kg/DM/dydd, ond mae'r cyfartaledd oddeutu 45-50kg/DM/dydd. Rydym ni'n ceisio blaenoriaethu porfeydd iau ar gyfer pori dwys gyda gefeilliaid, gan adael i'r mamogiaid gwag bori'r hyn sy'n weddill.

Er bod mesur yn gallu cymryd amser gan fy mod i hefyd yn gweithio'n llawn amser oddi ar y fferm, mae'n braf gallu cynllunio ymlaen llaw ac i greu darlun o dyfiant er mwyn cyllidebu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

---

# Profion Genomeg ar heffrod

Andy Dodd AHDB (Llaeth) Rheolwr Technegol – Bridio a ffrwythlondeb

Mae ymchwil diweddaraf AHDB yn dangos bod heffer laeth yn y DU yn costio £1800 ar gyfartaledd i'w magu o enedigaeth hyd at y cyfnod lloea cyntaf, gydag amrediad syfrdanol o £1073 - £3070 i bob anifail. Mae cyflawni potential pob un o'r anifeiliaid yma'n hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn ffynnu yn y system fferm a ddewiswyd ac yn sicrhau'r proffidioldeb gorau.

Roedd cyflwyno genomeg Holstein i'r DU yn 2012 yn cynnig dull mwy dibynadwy o ddewis teirw ifanc, gan ddyblu dibynadwyedd o oddeutu 30% i 65+% yn ogystal â rhoi cyfle iddynt gynnal profion genomeg ar eu stoc ifanc gan ddefnyddio'r un datblygiadau gwyddonol. Am gost o oddeutu £30 i bob anifail, gellir cymryd sampl blew neu ric o'r glust (gan ddibynnu ar ddarparwr y gwasanaeth) ar enedigaeth a'i anfon ar gyfer profion genomeg er mwyn galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau mwy deallus ynglŷn â phenderfyniadau magu a bridio er mwyn gwneud y gorau o botensial yr heffrod.

Roedd cyflwyno genomeg Holstein i'r DU yn 2012 yn cynnig dull mwy dibynadwy o ddewis

teirw ifanc, gan ddyblu dibynadwyedd o oddeutu 30% i 65+% yn ogystal â rhoi cyfle iddynt gynnal profion genomeg ar eu stoc ifanc gan ddefnyddio'r un datblygiadau gwyddonol. Am gost o oddeutu £30 i bob anifail, gellir cymryd sampl blew neu ric o'r glust (gan ddibynnu ar ddarparwr y gwasanaeth) ar enedigaeth a'i anfon ar gyfer profion genomeg er mwyn galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau mwy deallus ynglŷn â phenderfyniadau magu a bridio er mwyn gwneud y gorau o botensial yr heffrod.

Hyd yn ddiweddar, dim ond ar gyfer gwartheg Holstein oedd technoleg genomeg ar gael. Cyflwynwyd gwartheg Friesian Prydeinig yn arbrofol ym mis Awst 2016, ac mae cytundeb cenedlaethol bellach mewn lle i rannu genoteipiau er mwyn galluogi genomeg y DU i fod ar gael ar gyfer y mwyafrif o fridiau llaeth eraill erbyn diwedd 2016/2017. Ar fferm Marian Mawr, bydd canlyniadau cyntaf profion geneteg yr heffrod yn cael eu dychwelyd erbyn 20 Medi. Cadwch lygad ar wefan Cyswllt Ffermio am fwy o fanylion. [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)



Aled Morris, Marian Mawr - Ffermwr Arddangos Cyswllt Ffermio



# THERAPI BUCHOD SYCH DETHOL

Jamie McCoy, Swyddog Technegol Llaeth - Cyswllt Ffermio

---

Mae fferm arddangos Tyreglwys yn gweithio tuag at leihau'r defnydd o wrthfotig yn y fuches laeth, i leihau'r gwariant ar feddyginiaethau a sicrhau eu bod yn gallu defnyddio gwrthfotig yn y dyfodol.

Mae Geraint Thomas a'i deulu yn Tyreglwys yn ymfalchïo mewn cynhyrchu llaeth o ansawdd rhagorol ac mae eu statws cyfrif celloedd y corff isel yn cynnig y cyfle i leihau'r defnydd o wrthfotig wrth sychu gwartheg

Gan weithio gyda'u milfeddyg Stephen Davies, datblygwyd protocolau ar gyfer dynodi pa fuchod fyddai'n gymwys i ddefnyddio seliwr tethi yn unig arnynt. Yn y gorffennol mae pob buwch wedi cael ei thrin â dau diwb, gan ddefnyddio gwrthfotig a seliwr tethi wrth eu sychu – arfer oedd yn costio tua £14 i bob buwch.

Mae gan y buchod addas ar gyfer seliwr tethi yn unig gyfrif celloedd llai na 120,000 yn y sesiynau cofnodi llaeth bob 3 mis cyn sychu, a dim achosion o fastitis yn ystod y cyfnod hwnnw. Gwelwyd bod 80% o'r fuches yn gymwys dan y meini prawf uchod, gan gynnig arbediad o £7.40 i bob buwch mewn cymhariaeth â phan na ddefnyddiwyd therapi sychu buchod. Wedi ei luosogi ar draws 80% o fuches Geraint mae hyn yn arbed £977 y flwyddyn.

Mae gwartheg ychwanegol sydd â chyfrif celloedd isel sy'n cael eu trin â'r seliwr 12 gwaith yn llai

tebygol o ddiodef mastitis E.coli yn y cyfnod llaetha nesaf na'r rhai sy'n cael gwrthfotig hefyd. Mae achos nodweddiadol o E.coli yn costio £180-£200, felly mae arbediad cost sylweddol yn ogystal â manteision lles trwy ddefnyddio'r therapi.

Mae manteision ychwanegol defnyddio therapi buchod sych yn cynnwys gallu anfon y llaeth yn gynt i'r tanc ar ôl lloea, gan nad oes gwrthfotig gweddilliol yno. Mae llai o risg hefyd y bydd y lloeau yn cael lefel isel o wrthfotig mewn colostrwm, a all greu gwrthedd gwrthfeicrobaidd.

Gall defnyddio seliwr tethi yn unig fod yn beryglus os na ddilynir y protocolau cywir. Os oes unrhyw heintiad is-glinigol, gall selio'r broblem i mewn fod yn fygythiad difrifol i iechyd y fuwch. Mae glanweithdra wrth sychu yn allweddol ac mae goruchwylio gofalus ar ôl sychu yn hanfodol, gan wyllo am arwyddion o fastitis.

*'Mae holl fanteision y therapi yn ddibynnol ar y glanweithdra mwyaf trwyadl. Rhaid i'r broses gael ei chynnal gyda glanweithdra rhagorol neu gall y canlyniadau fod yn ddifrifol a chostus,' dywedodd y milfeddyg Stephen.*

**Bydd Tyreglwys yn cynnal diwrnod agored ar therapi buchod sych dethol ac yn dangos camerâu buchod sydd wedi cael eu gosod ar gyfer prosiect newydd. Ymunwch â ni ar 23 Medi 11-2.30yp.**



# Cloffni defaid a'r cynllun 5 pwynt

Dr Ruth Clements BVM&S MRCVS - Pennaeth Rhaglenni Milfeddygol FAI Farms

Clwy'r traed a sgald yw prif achosion cloffni mewn diadelloedd defaid yn y Deyrnas Unedig. Mae cloffni yn effeithio ar dair miliwn o ddefaid ar unrhyw un adeg yn ôl amcangyfrifon (FAWC 2011), sydd yn her sylweddol o ran lles anifeiliaid ac yn economaidd.

Amcangyfrifwyd bod cloffni arferol yn costio tua £10 i ffermwyr am bob mamog aiff at yr hwrdd, ac yn ychwanegol mae'n un o'r prif resymau dros ddefnyddio gwrthfotig yn y sector. Datblygodd Ruth Clements yn *Food Animal Initiative (FAI)* y **cynllun 5 Pwynt i drin cloffni** trwy gasglu canfyddiadau ymchwil academiaidd ac arfer amaethyddol gorau i greu set o gamau ymarferol, effeithiol a synergyddol i ymdrin â chloffni a rhoi cyfle i ffermwyr weithio tuag at sefyllfa lle bydd gweld defaid cloff yn eu diadell yn gyson yn perthyn i'r gorffennol.


Dynododd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru bod cloffni yn darged allweddol ar gyfer 2016/2017 yn y sector defaid ac mewn partneriaeth â FAI maent wedi dynodi rhai amcanion a dulliau allweddol.

Bydd y rhaglen, sy'n seiliedig ar y Cynllun 5 Pwynt yn cael ei rhedeg ar y cyd rhwng Cyswllt Ffermio a FAI Farms Ltd, a bydd yn dechrau trwy weithredu'r rhaglen reoli cloffni ar rai Ffermydd Arddangos a Safleoedd Ffocws allweddol. Bydd ffermwyr yn cael cefnogaeth i ddynodi sut y dylai'r Cynllun 5 Pwynt gael ei weithredu ar eu ffermydd, ac i gynhyrchu cynllun gweithredu penodol i'r fferm i'w helpu i reoli cloffni. Bydd data yn cael ei gasglu i fonitro cynnydd a dynodi agweddau pwysig fel sut y mae'r Cynllun 5

Pwynt yn effeithio ar y costau sy'n gysylltiedig â chloffni ar y ffermydd a pha effaith y mae'n ei gael ar y defnydd o wrthfotig.

Y nod tymor hir fydd gweithio tuag at gefnogi rhagor o ffermwyr yng Nghymru i reoli cloffni yn eu diadelloedd ac i gyfran fwy o'r diwydiant gael budd o'r potensial mawr i arbed arian, lleihau'r defnydd o wrthfotig a gwella lles yr anifeiliaid sy'n ganolog i'r rhaglen.

## Y CYNLLUN 5 Pwynt



# Fforwm Merched Mewn Amaeth 2016



Eleni bydd Cyswllt Ffermio yn cynnal  
Fforwm Merched Mewn Amaeth yng

**Nghanolfan yr Aelodau,  
Maes y Sioe Frenhinol, Llandrindod, LD2 3SY**

ar **ddydd Iau 29 Medi**

Estynnir gwahoddiad i ferched o bob cwr o Gymru i fynychu, a bydd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr ysbrydoledig gan gynnwys Lesley Griffiths, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, yn ogystal ag Alwen Williams, Cyfarwyddwr BT Cymru.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**

Carys Thomas - 01970 631402 - [carys.thomas@menterabusnes.co.uk](mailto:carys.thomas@menterabusnes.co.uk)

## GWASANAETH CYNGHORI

Mae ein Gwasanaeth Cyngori'n darparu amrediad o gyngor cymorthdaledig, annibynnol, cyfrinachol ac wedi'i deilwra ar gyfer busnesau ffermio a choedwigaeth, yn ogystal â busnesau bach a chanolig yn y sector bwyd.

**Cyngor un-i-un - wedi'i ariannu hyd at 80%**

**Cyngor grŵp - wedi'i ariannu hyd at 100%**

**Ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni i gael...**

- Rhestr fanwl o'r holl gategoriâu cefnogaeth/cyngor sydd ar gael
- Gwybodaeth ynglŷn â chymhwysedd a chymorth ariannol
- Rhestr o gwmnïau cyngori sydd wedi'u cymeradwyo a chyngor ynglŷn â dewis y cyngorwr/cyngorwyr mwyaf addas
- Arweiniad cam wrth gam syml ynglŷn â sut i ymgeisio

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/gwasanaeth-cyngori>

# Porthi gwartheg bïff dros y gaeaf

**Hefin Richards** - Ymgynghorwyr annibynnol ar gyfer maeth a rheolaeth gwartheg bïff a llaeth

Bwyd (*gan gynnwys porthiant*) yw'r gost unigol uchaf mewn unrhyw system cynhyrchu bïff, felly mae rheolaeth bwyd effeithiol yn rhoi'r cyfle gorau i leihau costau cynhyrchu a sicrhau'r elw gorau. Mae gosod targedau twf realistig, pwysu a monitro, a dethol a dogni bwyd yn effeithiol yn elfennau allweddol a ddylai fod yn flaenoriaeth. Mae tri chyfnod penodol y dylid eu hystyried:



1. MAGU – llo sugno gyda'r heffer neu lo llaeth ar ddechrau bywyd.
2. TYFU – amserlen amrywiol gan ddiybnnu ar ryw, system a'r oedran targed yn y lladd-dy.
3. PESGI – gofynion egni uwch er mwyn cyrraedd y targed o ran pwysau a chyflwr.

Mae'r **CYFNOD MAGU'N** seiliedig yn gyffredinol ar sicrhau Cynnydd Pwysau Byw Dyddiol (DLWG) uchel, yn ogystal â datblygu rwmen sy'n gallu defnyddio porthiant a dwysfwyd yn effeithiol yn hwyrach mewn bywyd. Bydd cyflenwad llaeth, mynediad at ddwysfwyd addas a phorthiant o ansawdd uchel, statws iechyd a'r amgylchedd cyffredinol yn chwarae rhan bwysig o ran canfod perfformiad yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r **CYFNOD TYFU'N** ymwneud â hybu tyfiant y ffrâm, gan anelu'n nodweddiadol at 1kg DLWG heb ychwanegu gormod at gyflwr corff yr anifeiliaid. Mae ansawdd porthiant (*wedi'i bori a'i silweirio*) yn chwarae rhan bwysig yn hyn, a dylai porthiant gyfrif fel 75-100% o'r diet yn ystod y cyfnod hwn. Bydd porthiant sy'n uwch o ran protein (*Meillion/Maglys Rhuddlas ayyb*) yn cynorthwyo i leihau cyfanswm costau porthi yn ogystal â chynorthwyo i annog tyfiant y ffrâm.

Y **CYFNOD PESGI** – mae startsh yn ffynhonnell egni allweddol ar gyfer datblygiad cyhyrau, felly dylid ystyried defnyddio ÷d, silwair India corn a chyd-gynnyrch tatws ar gyfer y cyfnod olaf hwn. Gellir bwydo mwy o silwair ffibrog yn ddiogel gyda lefel uwch o startsh, a gellir lleihau lefelau protein. Gallai fod werth ystyried diet dwys yn seiliedig ar ÷d yn ystod y cyfnod hwn, ond byddwch yn ymwybodol o beryglon asidosis gyda diet isel o ran ffibr.

## NEGESEUON ALLWEDDOL



# DIGWYDDIADAU

## CYMHORTHFA OLYNIAETH

I helpu teuluoedd fferm a choedwigaeth i ddysgu mwy am faterion i wneud â chynllunio olyniaeth.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
22/09/2016	Aberhonddu
26/09/2016	Llanrwst
13/10/2016	Wyddgrug

## CYMORTHFEYDD TG

Yn ystod y gymhorthfa TG, cewch gyfle i dderbyn apwyntiad un-i-un gyda mentor TG profiadol i dderbyn cefnogaeth i wella eich sgiliau TG.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
21/09/2016	Pandy

## CYMHORTHFA ADOLYGU BUSNES

Datblygu, gweithredu a gwerthuso cynlluniau ar gyfer eich busnes gydag ymgynghorydd busnes profiadol i ehangu a chryfhau eich busnes.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
27/09/2016	Caerfyrddin
26/10/2016	Dinbych
03/11/2016	Y Trallwng

## MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO

Yn y gymhorthfa yma cewch y cyfle i dderbyn cyngor marchnata personol gan ymgynghorydd busnes sydd yn arbenigo mewn marchnata ac arallgyfeirio busnesau amaethyddol.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
30/09/2016	Mynwy
07/10/2016	Bangor
19/10/2016	Penfro

## GWEITHDY CYNLLUNIO BUSNES

Bydd y gweithdai hanner diwrnod yma sydd wedi'u hariannu'n llawn yn cynorthwyo ffermwyr a choedwigwyr i feistrolu egwyddorion sylfaenol paratol cynllun busnes wedi'i deilwra i ofynion eu busnes eu hunain.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
12/09/2016 & 30/09/2016	Aberhonddu
23/09/2016 & 07/10/2016	Pencoed
28/09/2016 & 21/10/2016	Tregaron
29/09/2016 & 06/10/2016	Rhuthun

Mae'r cymorthfeydd yn cael eu cynnal rhwng **9yb a 5yp** - mae archebu lle yn hanfodol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **Mali Griffith** - 01248 660074 - [mali.griffith@menterabusnes.co.uk](mailto:mali.griffith@menterabusnes.co.uk)